



YSGOL PLAS COCH

Mr Osian Jones BA
Pennaeth Head Teacher

E-bost/E-mail: mailbox@plascochpri.wrexham.sch.uk
Gwefan/Website: <https://ysgolplascoch.cymru>

Awst 31ain 2020

Annwyl rieni a gwarchodwyr,

Isod mae gwybodaeth i rieni a gwarchodwyr ynglyn a threfniadau gollwng a chasglu disgyblion yn yr ysgol wrth i ni ail agor. Mae'r wybodaeth yma wedi cael ei roi at ei gilydd gan ystyried canllawiau Llywodraeth Cymru a'r asesiad risg mae'r ysgol wedi ei gwblhau:

Cyffredinol

- Ni fyddwn yn darwahanu amseroedd cychwyn a gorffen diwrnod ysgol ar hyn o bryd. Byddwn yn monitro'r agwedd hon yn ofalus dros y dyddiau a'r wythnosau cyntaf o'r tymor a gwneud newidiadau os bydd angen. I gynorthwyo efo hyn, mae'n bwysig eich bod yn dilyn y canllawiau gollwng a chasglu isod.
- Dylai rhieni ystyried cerdded i'r ysgol ble mae'n bosib
- Os oes angen defnyddio trafndiaeth, dylid osgoi defnyddio trafndiaeth gyhoeddus
- Ni ddylai aelodau o wahanol deuluoedd deithio yn yr un car os yn bosib.
- **Dim ond staff a'r rheiny sydd wedi cael caniatad i barcio ym maes parcio'r staff sydd i barcio yno.**
- **Dim ond un rhiant / gwarchodwr / aelod o'r teulu / oedolyn arall ddylai ddod i'r ysgol i ollwng a chasglu er mwyn cyfyngu ar y nifer sydd ar dir yr ysgol.**
- Rydym yn ymestyn y cyfnod pan y gallwch ollwng eich plentyn yn y bore i fod rhwng **8:45am – 9:00am**. Ar ddiwedd y dydd, bydd pawb yn gorffen am **3:30pm (Derbyn I BI 6)**.

Clwb brechwast

- Cerdded i fyny'r prif lwybr a gollwng eich plentyn wrth y ddesg fydd tu mewn i'r brif fynedfa. Gadael yr ysgol drwy fynd drwy'r giat ar y dde i'r brif fynedfa a dilyn y llwybr drwy'r giat gornel BI 5 a 6 ac ar hyd y llwybr (sydd wedi ei farcio a saethau) i fynd allan o'r ysgol yn ymyl y giat allanfa o'r maes parcio. **Peidiwch a cherdded nol lawr y prif lwybr gan y gallai fod yna rieni a phlant yn cerdded i fyny'r llwybr i gyfarfod â chi.**

Cyfnod Sylfaen (Meithrin, Derbyn BI 1 a 2)

- Bydd angen i chi ddod i fyny y prif lwybr, troi i'r chwith a cherdded o amgylch yr ysgol, heibio i ardal chwarae allanol y Meithrin at iard y Cyfnod Sylfaen ac yna gollwng eich plentyn wrth ddrws 'patio' dosbarth eich plentyn. Bydd staff ar yr iard yn ystod y dyddiau cyntaf i'ch cyfeirio at y dosbarth cywir.
- O du allan y drysau 'patio' yma y byddwch yn casglu eich plentyn ar ddiwedd y bore (Meithrin) prynhawn (Derbyn i BI 6)
- Ar ôl gollwng / casglu eich plentyn, bydd angen i chi barhau i gerdded o amgylch yr ysgol ac ar hyd y llwybr sy'n mynd allan yn ymyl y giat allanfa o'r maes parcio. Mae'r llwybr wedi ei farcio efo saethau ar y llawr.
- Wrth aros y tu allan i'r dosbarthiadau ar ddiwedd y dydd a wnewch chi sicrhau eich bod yn cadw at ofynion ymbellhau cymdeithasol.

Adran Iau (BI 3, 4, 5 a 6)

- Bydd angen i chi ddod i fyny'r prif lwybr ac yna fforchu i'r dde cyn dod at y drws blaen, drwy'r giat ac ymlaen at y giat nesaf ar gornel dosbarth BI 5/6 Mr Geraint Jones (ble mae disgyblion BI 3-6 yn cael eu gollwng fel arfer). Bydd aelod o staff yno bob bore i gymryd unrhyw negeseuon a derbyn y plant gan rieni.
- O'r man yma, bydd y plant yn mynd eu hunain i'w dosbarthiadau. Yn ystod y dyddiau cyntaf, bydd staff yn hebrwng y plant i'r dosbarthiadau, yn enwedig y rhai sy'n symud i fyny o BI 2 i BI 3.
- Ar ôl gollwng eich plentyn yma, bydd angen i chi ymuno efo'r llwybr sy'n arwain allan o'r ysgol nesaf at y giat allanfa o'r maes parcio.
- Ar ddiwedd y dydd, bydd y drefn ychydig yn wahanol i drefn y bore – bydd angen i chi ddod i fyny y prif lwybr, troi i'r chwith a cherdded o amgylch yr ysgol, heibio i ardal chwarae allanol y Meithrin ac iard y Cyfnod Sylfaen ac o amgylch at ddrws 'patio' dosbarth eich plentyn. Ar ôl casglu eich plentyn, dilyn y llwybr sy'n mynd allan nesaf at y giat allanfa o'r maes parcio

Brodyr a chwiorydd

I'r rheiny sydd â phlant yn Y Cyfnod Sylfaen a Cyfnod Allweddol 2, gallwch wneud un o ddau beth yn y bore:

- Ar ôl cerdded i fyny'r prif lwybr, gyrru y plentyn hynaf o BI 3, 4, 5 neu 6 ar ei ben / ei phen ei hun drwy'r giat ar y dde ac ymlaen at yr aelod o staff wrth y giat gornel yn ymyl dosbarth BI 5/6 Mr. Geraint Jones. Yna dilyn y cyfarwyddiadau uchod ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen, neu
- Ar ôl cerdded i fyny'r prif lwybr, mynd â'ch plant i gyd i'r chwith at iard y Cyfnod Sylfaen gan ollwng plentyn / plant ieuengaf wrth ddrws ei ddosbarth / dosbarth ac yna parhau ymlaen i ollwng y plentyn hynaf wrth ddrws ei ddosbarth ef / hi yn yr Adran Iau cyn dilyn y llwybr sy'n mynd allan nesaf at y giat allanfa o'r maes parcio.

Cofiwch:

- Ni fydd posib i rieni gael mynediad i adeilad yr ysgol. Os oes unrhyw negeseuon, dyild ffonio, ebostio neu ddweud wrth yr aelod o staff wrth ddrws y dosbarth / giat gornel BI 5/6
- Rhaid i bawb gadw 2 fetr arwahan i'w gilydd yn enwedig os oes yna ychydig o aros i'w wneud wrth gasglu yn y prynhawn.
- Bydd angen cadw at y gofynion 2 fetr os yn defnyddio'r hebryngwr croesi yn ogystal. Mae'r ardal yma wedi ei marcio bob yn ddwy fetr hefyd.

Bydd staff o amlgylch i gynorthwyo yn ystod y dyddiau cyntaf a byddwn yn monitro y trefniadau uchod gan eich hysbysu os bydd angen gwneud unrhyw newidiadau.

Gyda diolch am eich cydweithrediad,

Osian Jones